John Griffiths MS – Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau

13 Hydref 2020

Annwyl John

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb**

Cyhoeddodd archwilydd Cyffredinol Cymru yr Adroddiad hwn ym mis Gorffennaf, a chafodd ei drafod yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fis Medi.

Gan fod eich Pwyllgor chi wedi ymgymryd â gwaith gwerthfawr yn y maes hwn, roedd yr Aelodau o'r farn y dylwn ofyn i'ch Pwyllgor ystyried yr agweddau polisi a drafodwyd yn yr adroddiad.

Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried yr adolygiad o Bartneriaethau Strategol fel rhan o'n hymchwiliad i'r Rhwystrau i weithrediad llwyddiannus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r mater hwnnw fel astudiaeth achos.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.